# Y Ddamwain yng Ngwaith Glo’r Primrose

Wedi i Huw George, sy’n byw yn Rhos ac a anwyd a’i fagu yng Ngellinudd, ddod i gysylltiad â Chyngor Cymuned Cilybebyll, cytunwyd i goffáu achlysur trist yn hanes y gymuned ddigwyddodd 150 mlynedd yn ôl. Ar ddydd Mercher, 13$^{eg}$ Hydref 1858 cafodd pedwar ar ddeg o ddynion a saith ceffyl eu lladd mewn damwain yn Hen Lofa’r Primrose oedd wedi ei lleoli ar waelod y lôn sydd nawr yn cael ei adnabod fel Primrose Lane, Rhos, Pontardawe.

Mae’r adroddiad isod wedi ei seilio ar yr adroddiad o’r ddamwain a’r cwêst wnaeth ddilyn ym mhapur newydd y “Cambrian” ar 15$^{ed}$ a’r 29$^{ain}$ Hydref 1858. Digwyddodd y ddamwain tra’r oedd tua 200 o ddynion a bechgyn yn gweithio yn y lofa. Dechreuodd y shifft fel arfer am 6:00am ond am 8:30 rhedodd un o’r dynion o’r lofa gan ddweud…. “bod y lle i gyd yn llawn o sylffwr (sic) a bod pob un o’r dynion a’r bechgyn wedi eu lladd.” Mewn modd braidd yn ddramatig â’r adroddiad ymlaen i ddweud -

> “Ymhen hanner awr roedd o leia’ thri chant o bobl, gwragedd a mamau yn bennaf, wedi crynhoi o gylch y fan, a gellid clywed eu sgrechiadau ingol a’u dolefain dros filltir i ffwrdd.”

Yn ffodus cyfyngwyd y ddamwain i ardal fechan a elwir yr “old machine level” lle ’roedd ond rhyw 30 o ddynion yn gweithio. Yn fuan iawn gwirfoddolodd nifer o’r glowyr i fynd mewn i’r pwll i geisio achub y rhai oedd islaw. Bu i ddau ohonynt, William Lewis 60 mlwydd oed a Griffith Gibbs 18 mlwydd oed, aberthu eu bywyd mewn ymgais ofer.

Mae un darn teimladwy o’r adroddiad yn dweud -

> “Clywsom hefyd fel y bu i dad a mab, bachgen ifanc, a thri arall, ddechrau gwneud eu ffordd allan o’r lefel ond trist yw cyhoeddi i’w bartneriaid gwympo, heb obaith codi eto mae’n debyg. Cwympodd hyd yn oed ei fab ei hun ond gyda gwroldeb a chariad tad cymerodd ef dan ei fraich a’i gario peth o’r ffordd, ond gwanychodd a bu rhaid iddo ei adael ar ôl, wedi ei lethu yn llwyr. Gall ddweud yn wir “Dim ond fi wnaeth ddianc i adrodd yr hanes. ”

O’r diwedd cliriodd yr awyr ddigon i alluogi mwy o achubwyr i fynd mewn i’r pwll, ac ymhen ychydig funudau daethpwyd â chyrff y pedwar ar ddeg i’r wyneb a’u gosod ochr yn ochr yn agos i geg y pwll. Dyma enwau’r rhai fu farw-

| | |
|---|---|
| David Evans | 38 gŵr priod â 5 o blant |
| John Gibbs | 36 gŵr priod â 2 o blant |
| David Hogging | 32 gŵr priod gydag 1 plentyn |
| Griffith Jones | 19 gŵr sengl |
| John L. Rees | 25 gŵr sengl |
| Thomas Griffiths | 18 gŵr sengl |
| Henry Williams | 16 gŵr sengl |
| Hopkin Evans | 15 gŵr sengl |
| William Thomas | 18 gŵr sengl |
| John Davies | 19 gŵr sengl |
| Isaac Evans | 12 bachgen |

| | |
|---|---|
| William Lewis | 60 gŵr priod gyda phlant priod |
| Morgan Gibbs | 18 gŵr sengl |
| Griffith Gibbs | 19 gŵr sengl, brawd i John Gibbs |

Cynhaliwyd y cwêst i'r ddamwain ddydd Llun 26ain Hydref 1858 yn y "Butcher's Arms" yn Yr Alltwen. Cyfarwyddodd y crwner y rheithgor i - "Anghofio unrhyw adroddiadau neu sibrydion y byddent efallai wedi eu clywed o gylch yr ardal yn ymwneud â'r digwyddiad anffodus hwn ac i ganolbwyntio'n unig ar y dystiolaeth." Dywed ymhellach - "Y gobeithiai a chredai y byddid yn barnu mai damwain syml oedd y digwyddiad ac nad oedd unrhyw fai o du rheolwyr y gwaith glo."

Tua phythefnos cyn y ddamwain gosodwyd bwyler tanddaearol er mwyn gyrru injan weindio i halio glo. Roedd yr awyr ar gyfer y bwyler yn awyr oedd yn cael ei yrru allan o'r pwll a byddai'r nwyon o'r bwyler yn cael eu cario gyda'r awyr hwn drwy hen lefelydd ac i fyny'r shafft awyru i'r wyneb. Gosodwyd drysau awyru yn y lefelydd i gadw'r awyr i symud. Ar y dydd dan sylw agorwyd ddrws awyru gan rywun anhysbys gan adael i'r nwyon o'r bwyler fynd i mewn i'r "old machine level" gan daro i lawr y dynion oedd yn gweithio yno. Dyfarniad y cwêst oedd marw trwy ddamwain.

Canrif a hanner yn ddiweddarach, mae'r Cyngor Cymuned wedi trefnu i blac bach gael ei osod ar fainc gyferbyn â Primrose Lane lle mae'n ymuno â Heol Castell Nedd. Mae'r plac yn cyfeirio yn gryno at y ddamwain ac yn tystio i'r marwolaethau. Wrth ymyl y ffordd ac ar yr hawl tramwy sydd yn croesi'r heol o safle Hen Waith Glo'r Primrose, mae'r fainc wedi ei osod ar lwybr y byddai llawer o'r glowyr a'u teuluoedd yn debygol o fod wedi ei ddilyn ar y diwrnod sydd dan sylw.

Cyhoeddwyd manylion llawn o'r ddamwain a'r cwest ym mhapur newydd y "Cambrian" ar y pryd, a gellir eu darllen ymhellach yn swyddfa Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg yn y Ganolfan Ddinesig yn Abertawe.